

VALE of GLAMORGAN



BRO MORGANNWG

Cefnogi  
Cymunedau  
Cryf â Dyfodol  
Disglair



CYNGOR BRO MORGANNWG  
SIARTERY Y GWEITHWYR

2016-2020

[www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)

## CYFLWYNIAD I SIARTERY GWEITHWYR

Mae'r Siarter wedi ei ddylunio er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gynnig y gwasanaethau gorau posibl i'n cwsmeriaid trwy'r cyfraniad gorau posibl gan yr holl gyflogeion. Mae'r heriau allanol yn tyfu ac felly hefyd yr angen i sicrhau bod pawb yn derbyn y cymorth a'r cyfle i gyfrannu.

Mae'r Siarter yn dangos fframwaith o ddisgwyliadau gan y ddwy ochr, er mwyn i'r Cyngor a'r cyflogeion allu ateb y galw dros y blynyddoedd nesaf. Y bwriad yw nodi'r cymorth y gall ein cyflogeion ei ddisgwyl yn rhesymol a'r cyfrifoldebau a'r safon sy'n ddisgwyliedig ganddynt hwythau.



**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

Pwysigrwydd y Siarter yw ei fod wedi ei fframio mewn partneriaeth a thrwy ymgynghori â'n cyflogeion ac undebau llafur ac mae'n cefnogi gwerthoedd, amcanion a'r uchelgeisiau sydd yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20. Bydd y Siarter yn:

- Ein helpu ni i sicrhau gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor
- Rhoi gwybodaeth er mwyn siapio a gwerthuso polisiau cyflogaeth y dyfodol
- Helpu rheolwyr a chyflogeion i adolygu eu cyfraniad yn y gwaith
- Bod yn destun trafod fel rhan o'r broses werthuso cyflogeion
- Cael ei werthuso fel rhan o'r arolwg cyflogeion rheolaidd a chael ei adolygu yn briodol

Er na fwriedir iddo ddisodli polisiau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, bwriedir iddo egluro telerau perthynas y gyflogaeth.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am y Siarter, cysylltwch â Reuben Bergman, Pennaeth yr Adnoddau Dynol drwy [rbergman@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:rbergman@valeofglamorgan.gov.uk)

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

**GWERTH I:****● UCHELGAIS**

**Meddwl yn flaengar a derbyn dulliau newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.**

## Beth y gallaf ei ddisgwyl gan y Cyngor

- Arweiniad cryf a chefnogol
- Cefnogaeth i gyrraedd fy mhotensial
- Y cyfle i ddatblygu
- Y cyfle i gyfrannu at newid
- Y cyfle i brofi syniadau newydd
- Cymorth i ddysgu os aiff pethau o chwith

## Beth mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gennyf

- Y cyfraniad gorau y gallaf ei roi yn y gwaith
- Cynnig a bod yn agored i syniadau newydd
- Cyfrannau at wella'r gwasanaeth
- Dangos mentergarwch wrth wneud fy swydd
- Bod yn frwdfrydig i ddatblygu
- Cymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros fy nysgu a'm datblygiad

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

**GWERTH 2:****● AGORED**

Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu cymryd.

**Beth y gallaf ei ddisgwyl gan y Cyngor**

- Gwybodaeth am faterion pwysig
- Gwrando ar ac ystyried fy marn
- Cyswllt rheolaidd â fy rheolwr
- Ffydd ynof i fwrw ymlaen â'm gwaith
- Adborth ar fy mherfformiad

**Beth mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gennyf**

- Cyfrannu fy marn a chynnig a bod yn agored i syniadau newydd
- Gwneud y defnydd gorau o bob dull cyfathrebu
- Rhoi gwybodaeth i fy rheolwr
- Rhoi adborth mewn ffordd adeiladol
- Cymryd cyfrifoldeb dros fy mherfformiad fy hun

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

**GWERTH 3:****● GYDA'N GILYDD**

Cydweithio fel tîm sy'n cysylltu â'n cwsmeriaid a phartneriaid, yn parchu amrywiaeth ac sy'n ymrwymo i wasanaethau o safon.

## Beth y gallaf ei ddisgwyl gan y Cyngor

- Cael fy nhrin gyda pharch
- Cael fy rheoli mewn ffordd deg, onest a chyson
- Bod yn glir ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig gennyf
- Gweithio mewn amgylchedd diogel, cefnogol a chadarnhaol
- Derbyn help gydag anawsterau tra'n y gwaith

## Beth mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gennyf

- Gwerthfawrogi a parchu cyfraniad eraill
- Gweithio'n onest a chywir
- Cynorthwyo aelodau'r tîm pan allaf
- Fy mod yn aelod dibynadwy o'r tîm
- Cyfrannu at greu gweithle cadarnhaol
- Ystyried a chefnogi iechyd a lles eraill

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

**GWERTH 4:****BALCHDER**

**Balchder ym Mro Morgannwg:  
balch o wasanaethu  
ein cymunedau a bod yn rhan o  
Gyngor Bro Morgannwg.**

### Beth y gallaf ei ddisgwyl gan y Cyngor

- Fy ngwerthfawrogi a chydnabod fy ngwaith
- Cefnogaeth i wneud y gwaith gorau y gallaf ei wneud
- Gwybodaeth am waith ehangach y Cyngor
- Cymorth i ddeall fy nghyfraniad i'r Cyngor ehangach

### Beth mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gennyf

- Balchder yn fy ngwaith
- Gwneud fy ngorau dros y Cyngor a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu
- Hyrwyddo gwaith y Cyngor a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig
- Bod yn gefnogol o fy nghydweithwyr a'r gwaith y maent yn ei wneud

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

## CEFNOGI GWEITHREDOEDD AC YMRWYMIADAU



Mae'r Cyngor yn sefydliad mawr ac amrywiol a chydabyddir y bydd angen cymorth ar reolwyr a chyflogeion o bryd i'w gilydd i gyrraedd disgwyliadau'r Siarter hwn. Gweithredir y 15 cam isod er mwyn cynnal disgwyliadau'r Siarter:

1	Anfon y Siarter at holl gyflogeion a rhai newydd y Cyngor	2016/17
2	Adolygu ac ail-lansio'r cynllun gwerthuso cyflogeion	2016/17
3	Dylunio cynllun datblygu'r tîm rheoli er mwyn cefnogi'r Siarter	2017/18
4	Profi rhaglen gynllunio a rheoli talent dilynol	2016/17
5	Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo Caffi'r Arweinwyr	2016/17
6	Adolygir a gwellheir effeithiolrwydd yr holl ddulliau cyfathrebu	2016/17
7	Ffurfir Tîm Golygu Staff er mwyn ceisio siapio'r Broses Briff Craidd	2016/17

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**





8	Ffurfir grŵp Cysylltu â Gweithwyr er mwyn cynnal trafodaeth reolaidd gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol	2016/17
9	Datblygir safonau ar gyfer cyfarfodydd/ cyswllt tîm i'w defnyddio ym mhob gwasanaeth	2017/18
10	Bydd arolwg sgiliau a lansio cynllun 'pasbort i hyfforddiant'	2017/18
11	Archwilir a syniadau yn gysylltiedig â digwyddiadau cydnabod rheolaidd a'u rhoi ar waith	2017/18
12	Bydd y Cyngor yn lansio Rhaglen Gymorth i Gyflogeion	2016/17
13	Adolygir Polisiâu AD gyda chydweithwyr undebau llafur er mwyn cefnogi'r disgwyliadau a nodir yn Siarter y Gweithwyr	2016/18
14	Ceisir syniadau ar gyfer cynllun awgrymiadau neu syniadau a'i lansio	2017/18
15	Adolygir a gwerthusir effeithiolrwydd Siarter y Gweithwyr yn rheolaidd	Blynyddol

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

## DYSGU RHAGOR AM Y SIARTER

Mae sawl ffordd y gallwch ddysgu rhagor am y Siarter y Gweithwyr, gwneud sylwadau am ei ddatblygu neu anfon eich syniadau atom:

- **Ewch i dudalen Staffnet...**  
Darganfyddwch mwy trwy Staff Central

---

- **E-bostiwch gwestiynau/syniadau i...**  
[engage@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:engage@valeofglamorgan.gov.uk)

---

- **Ffoniwch y llinell gymorth ar...**  
01446 709527

---

- **Siaradwch ag...**  
Eich Rheolwr Llinell  
Eich cynrychiolydd Undeb Llafur UNISON/GMB  
neu UNITE

## RHAGLEN CYMORTH I WEITHWYR

Efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn gwybod am y Rhaglen Cymorth i Weithwyr (Care First 0800174319) a lansiwyd ar 1 Mehefin 2016. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyngor a chymorth cwnsela dros y ffôn (24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn) ar gyfer gweithwyr ynghylch ystod o faterion iechyd a 'bywyd' bob dydd.

**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**

## A HOFFECH DDODYN

## GYNRYCHIOLYDD Y SIARTER?

Un o'r ffyrdd o helpu sefydlu'r SiartEr fydd gan ddefnyddio cefnogaeth 'Cynrychiolwyr y Siart'r' ym mhob gwasanaeth. Bydd y cynrychiolwyr hyn yn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd y Siarter yn eu gwasanaethau ei hunain, rhannu eu barn ynghylch sut y gellir gwella'r siart'r a helpu i ddylunio a phrofi rhai o gynnyrch y dyfodol o ran cysylltu â gweithwyr a datblygu gweithwyr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn 'Gynrychiolydd y Siarter' neu os ydych am gael gwybod rhagor am y rôl, rhowch wybod i ni trwy e-bostio [engage@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:engage@valeofglamorgan.gov.uk).



**'cefnogi cymunedau cryf  
â dyfodol disglair'**



CYNGOR BRO MORGANNWG  
SIARTERY GWEITHWYR

2016 - 2020

05550 - 0816